# CYMDEITHAS HANES DOLWYDDELAN

## Mehefin 12 – Pont Rufeinig – 6.30pm

Dadorchuddio'r hysbysfwrdd, gan goffáu'r milwyr Americanaidd wnaeth wersylla yma yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Gwestai arbennig, George Studor, mab un o'r milwyr a wnaeth wersylla yn y Bont Rufeinig ym 1944

\- - - - -

### COFFÁU MILWYR AMERICANAIDD YR AIL RYFEL BYD.

Eleni bydd yn 80 mlynedd ers D Day a hefyd 80 mlynedd ers i filwyr 83fed Adran Troedfilwyr Byddin yr UDA gyrraedd gogledd Cymru, gan gymryd rhan mewn cad-drefniadau cyn codi pac am Ewrop ar gyfer ymosodiad cynghreiriol.

Bydd **Cymdeithas Hanes Dolwyddelan** yn gosod hysbysfwrdd ym Mhont Rufeinig (Roman Bridge) gan adrodd eu hanes. Bydd yr hysbysfwrdd ger y cae lle bu i'r milwyr wersylla ar Fai'r 10$^{fed}$ 1944.

Gwyddai sawl un am sut bu i'r gwersyll orlifo, gan arwain at wacáu ar frys, ond os hoffech chi glywed mwy wrth ymweld â safle'r gwersyll, dewch draw i'r digwyddiad dadorchuddio'r hysbysfwrdd am 6.30yh ar Fehefin y 12$^{fed}$ (y drws nesaf i'r Bont Rufeinig).

George Studor, mab un o'r milwyr oedd yma'r holl flynyddoedd yn ôl fydd yn cymryd yr awenau ac yn dadorchuddio'r bwrdd, ar y cyd â phreswylydd o Ddolwyddelan a oedd yn cofio'r milwyr yma ac yn cofio'r ymadrodd a ddefnyddir yn aml, 'Got any gum chum.'

***Mae'n rhaid estyn diolch arbennig i Fferm Penrhiw, am ganiatáu inni osod y bwrdd ar eu tir nhw.***



Is-gapten 1af. George F. Studor,
83fed Adran Troedfilwyr